# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Dethol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Mawrth, 8fed Chwefror, 2022 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor Tudor Thomas (Chairman) | Sharran Lloyd, LSB Development Manager<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Richard Jones, Rheolwr Perfformiad |
| County Councillors: P. Jordan, R.Roden, J.Treharne, S. Woodhouse and Penny Jones | Phil Diamond, Service Manager, Gwent Regional Partnership Board |

Also in attendance County Councillors:

**APOLOGIES:** Councillors D. Batrouni and Simon Howarth

1. **I ethol Cadeirydd.**

   Cynigiwyd y Cynghorydd Thomas gan y Cynghorydd Roden ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jordan.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

3. **Datganiadau o Fuddiant**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau cyhoeddus.

5. **Asesiad Anghenion Poblogaeth**

   Phil Diamond gyflwynodd y cyflwyniad ac atebodd gwestiynau'r aelodau, gyda sylwadau ychwanegol gan y Cynghorydd Penny Jones a Richard Jones.

   **Her:**

   *O ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a sawl sydd wedi ymgeisio, a allwch chi egluro'r diagramau ymhellach ar dudalen 49?*

   Rydym wedi cael ein harwain gan aelodau etholedig i edrych ar effaith ranbarthol y GCAu, sydd ar gael i unrhyw breswylydd i addasu eu cartref er mwyn galluogi pobl i fyw yn eu cartref eu

hunain yn hirach. Ond mae cost deunyddiau adeiladu wedi cynyddu, tra bod eu hargaeledd wedi gostwng. Rydym hefyd wedi gweld effaith llai o Therapyddion Galwedigaethol, sydd fel arfer yn ymweld â phobl yn eu cartref eu hunain i asesu pa addasiadau sydd eu hangen. Unwaith eto, mae hyn yn effaith ar y gweithlu; gyda llai o Therapyddion Galwedigaethol ar gael, rydym wedi gweld mwy o amseroedd aros ar gyfer yr asesiadau hynny.

Mae canllawiau diweddar Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno asesiad ariannol. Yn anffodus, mae hyn yn digalonni rhai pobl - maen nhw'n teimlo y gallai'r asesiad effeithio arnyn nhw mewn ffyrdd eraill. Ond y bwriad yw sicrhau bod gan y bobl gywir fynediad i'r GCAu. Mae hyn oll yn gwaethygu'r mater ac yn arwain at ofn y bydd llai o bobl yn gwneud cais am y grantiau. Bydd hi'n anoddach i'r rhai sydd ddim yn gwneud cais i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gan arwain o bosib at fwy o gwympiadau a derbyniadau i'r ysbyty. Ar draws y rhanbarth, rydym yn cysylltu gyda'r 5 arweinydd comisiynu o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn edrych ar gyllid Llywodraeth Cymru sydd ar gael i ni i helpu gydag addasiadau mwy i gartrefi h.y. y rhai sy'n fwy na £36k. Oherwydd bod y pandemig yn gefndir i'r gwaith hwn, mae materion a heriau eraill yn debygol o ddod i'r blaen dros y 12-18 mis nesaf. Unwaith y bydd gwaith mapio a dadansoddi effaith wedi'i gynnal ar draws y 5 awdurdod, gallai hynny ddod yn ôl i'r pwyllgor hwn am drafodaeth ehangach.

*Mae un o'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn Eitem 6, o dan Iechyd Meddwl, yn cynnwys "dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o iechyd meddwl ymhlith y cyhoedd i leihau stigma a helpu i geisio cefnogaeth yn gynharach." Sut ydych chi'n bwriadu cyflawni hyn?*

Ar ôl cyhoeddi'r AAP, bydd gofyn i ni gynhyrchu ymateb i'r cynllun gweithredu, felly bydd yr holl anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hamlygu, a thrwy gynllun ardal byddwn yn gosod y camau i fynd i'r afael â nhw. Y lle cyntaf i ddechrau yw plant a phobl ifanc - addysgu a hysbysu ar gyfnod cynnar am iechyd meddwl. Felly, mae llawer iawn o waith yn digwydd yn yr ysgolion, yn Sir Fynwy drwy'r agenda ysgolion iach yn enwedig. Yn gyffredinol, mae'n achos o ymwybyddiaeth y cyhoedd. Rydym wedi datblygu gwefan gyda'r bwrdd iechyd, o'r enw Melo, gyda gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau a chamau y gallant eu cymryd. Yn gynyddol, mae pobl yn fwy cyfforddus yn cyfaddef eu bod yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl - mae elusen sy'n gweithio gyda Dreigiau Cymru yn enghraifft o shifft bositif. Rydym yn gweithio gydag ysgolion a'r trydydd sector i gael cymaint o wybodaeth â phosibl a chyfleu'r neges y dylid ystyried y cymorth sydd ei angen ar gyfer iechyd meddwl yr un fath â help sydd ei angen ar gyfer iechyd corfforol.

*Ar gyfer parhad, mae Sir Fynwy yn borffor ar y graffiau yn yr adroddiadau, ond nid yn gyson.*

Mae hynny'n sylw defnyddiol iawn, diolch.

*Mae pwysau cynyddol ar ofalwyr, a'r galw amdanynt, sy'n ymddangos yn anghynaladwy. Sut gall Gwent ymdopi yn y dyfodol? A yw'r cyllid yn debyg yn y 5 cyngor?*

Ydy, mae'n ymddangos yn anghynaladwy. Mae ffocws drwy Lywodraeth Cymru, yn benodol, grant o £1m i ofalwyr sy'n cael ei ddosbarthu ledled Cymru bob blwyddyn sy'n ein galluogi i edrych ar ddatrysiadau rhanbarthol. Mae gennym fwrdd gofalwyr rhanbarthol, wedi ei gadeirio gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, gyda chynrychiolwyr o iechyd, y sector cymunedol a gofalwyr eu hunain yn eistedd arno. Y pwynt allweddol yw bod angen i ni wrando arnyn nhw er mwyn cefnogi gofalwyr. Rydyn ni'n gwybod bod seibiant i ofalwyr yn hollbwysig, a fydd angen buddsoddiad. Mae pobl eisiau atebion mwy addasadwy a hyblyg. Er enghraifft, efallai mai dim ond am ddwy awr y gallai fod angen i ofalwr gamu i ffwrdd. Felly, llais y gofalwr sy'n hollbwysig, a seibiant yw'r prif fater sy'n codi tro ar ôl tro. Mae mynediad at wybodaeth hefyd yn bwysig. Mae un unigolyn sy'n darparu gofal am dros 50 awr yr wythnos yn anghynaladwy, felly mae'n gwestiwn o sut allwn ni gefnogi hynny. Mae Llywodraeth Cymru a'r strategaeth genedlaethol gofalwyr yn canolbwyntio'n fawr ar y broblem hon, fel y byrddau rhanbarthol, ond nid yw'n broblem sy'n debygol o gael ei datrys yn y dyfodol agos.

*A oes posibilrwydd i chwilio am wirfoddolwyr seibiant ymysg teulu a chymuned y rhai sydd â dementia, yn enwedig am gyfnod bach o amser?*

Ie, yn bendant. 'Cyfeillio' yw'r term a ddefnyddir yn eang ar gyfer datrysiadau o'r math hwn ac mae'n rhywbeth y mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi'i gymryd ymlaen, er enghraifft. Mae rhai cymunedau'n gwneud hyn yn awtomatig. Mae rhai sy'n ymddeol eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, felly mae gennym gyfle gyda'n poblogaeth sy'n heneiddio i gynyddu gwirfoddoli. Mae cymorth cymheiriaid gyda gofalwyr hefyd yn bwysig: mae caffis dementia-gyfeillgar, er enghraifft, wedi darparu'r math hwn o gymorth ehangach yn flaenorol.

*A yw'r dystiolaeth wedi cael ei bwydo i mewn i Asesiad Lles Gwent? Sut bydd yn cael ei ddefnyddio gan y BGC i benderfynu ar flaenoriaethau'r dyfodol?*

Rydym wedi gweithio'n agos iawn ers nifer o flynyddoedd i sicrhau bod aliniad a gwerth mawr rhwng yr asesiadau. Er enghraifft, bydd anghenion gofalwyr yn dod i fyny drwy'r ymarferion ymgysylltu asesu lles, ond does dim angen i Asesiad Lles gynnwys gwybodaeth am ofalwyr am fod dyletswydd statudol yn y AAP i edrych ar eu lles. Ond bydd cyfeiriadau yn y dogfennau ar gyfer lle gellir dod o hyd i'r wybodaeth, yn hytrach na'i dyblygu. Dylai'r dull cydweithredol arwain at ymateb cydweithredol, fel bod gorgyffwrdd a dyblygu ymdrechion yn cael eu lleihau. Yn yr AAP, mae blychau wedi'u hamlygu i gyfeirio meysydd perthnasol yn yr asesiad lles. Mae'r cynlluniau lliw a'r ffont ac ati hefyd yn gyson rhwng y ddau felly maent bron yn ddwy ran o'r un ddogfen. Bydd sylwadau o heddiw yn cael eu bwydo i'r AAP terfynol pan fydd yn mynd i'r Cyngor i gael ei gytuno. Bydd sut yr ydym yn ymateb i'r materion a nodwyd yn cyflwyno cyfleoedd i weithio rhwng yr hyn sydd bellach yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol Gwent.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch am y cyflwyniad cynhwysfawr ar ddarn pwysig o waith. Mae addysg mewn ysgolion i dynnu stigma o faterion iechyd meddwl yn allweddol. Mae gwelliant mawr eisoes wedi bod o'i gymharu â'r degawdau blaenorol. Ailadroddodd y Cynghorydd Penny Jones bwysigrwydd y

gwaith hwn, a thynnodd sylw i'r grŵp Strategaeth Gofalwyr sy'n gweithio ym mhob asiantaeth ac sy'n cefnogi gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn llawer mwy ymwybodol o'u rôl. Mae'n amlwg bod angen mwy o gyfleusterau seibiant. Mae'r cynnydd yn y grwpiau oedran o bobl dros 65 a phobl dros 85 oed yn syndod a bydd yn gofyn am lawer mwy o gefnogaeth yn cael ei ddarparu. Mae'r mater gofal yn parhau, gan ddod â straen enfawr ar ddarparwyr. Mae strwythur gyrfa a thâl yn yrwyr allweddol i weld a yw pobl yn dewis mynd i mewn i'r proffesiwn hwnnw.

6. **<u>Asesiad Lles Gwent</u>**

Cyflwynodd Richard Jones a Sharran Lloyd y cyflwyniad ac ateb cwestiynau'r aelodau:

**Her:**

*Mae natur cefn gwlad Sir Fynwy yn ei wneud yn wahanol i'r 4 sir arall. Yn Atodiad 3, yn C3, "Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu", mae band eang yn flaenoriaeth isel. A yw hyn yn dangos y dylai fod data gwledig a thref ar wahân, gan adlewyrchu blaenoriaethau gwahanol?*

Er y bydd asesiad Gwent yn edrych ar les ar draws Gwent yn ei gyfanrwydd, mae yna ddyletswydd hefyd i asesu ardaloedd lleol yng Ngwent. Y gobaith yw, bydd sut yr ydym wedi asesu'r pum ardal o fewn Sir Fynwy, ac asesu lles yn y sir gyfan, yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ein bod yn ystyried tystiolaeth ar lefel fwy lleol. Gall hyn ddylanwadu a bwydo i mewn i'r ffordd y mae'r BGC yn ystyried hynny yn ei asesiad lles Gwent a'i ystyried, lle bo angen, o fewn y grŵp cyflenwi lleol a phartneriaethau sydd wedi'u crybwyll. Un o'r rhesymau allweddol y tu ôl i gwblhau asesiad lefel Sir Fynwy oedd deall y gwahaniaethau hynny rhwng cymunedau ac oddi fewn iddynt o ran materion lles.

Rydym yn gwybod bod band eang yn broblem. Er i ni weithio'n galed iawn i gael cymaint o ymatebion ymgysylltu â phosibl, rydym yn cydnabod bod rhai cyfyngiadau. Cawsom dros 500 o ymatebion, sy'n sylfaen dystiolaeth gref, ond mae'n bwysig ein bod yn eu hystyried ochr yn ochr ag adborth, tystiolaeth, data a gwybodaeth sydd gennym am y sir. Felly, mae barn pobl yn bwysig, ond yn achos band eang byddwn hefyd yn edrych ar bethau fel beth yw'r ddarpariaeth, pwy sydd â mynediad at fand eang hynod gyflym, ym mha ardaloedd, ac ati, y gallwn ei roi ochr yn ochr â'r hyn y mae pobl yn ei ddweud. Yn yr asesiad rydym wedi edrych yn fanylach ar y mater hwn.

*Y peth lleiaf pwysig yn C3 yw'r Gymraeg, sy'n rhyfeddol, o ystyried y gyfradd lafar o 10% ar draws y sir gyfan (uwch yn enwedig ardaloedd fel y Fenni). Pam nad yw'r data yn adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed gyda'r iaith yn Sir Fynwy? A oes angen i'r ffordd rydyn ni'n casglu'r data newid?*

Er nad yw'r llawer iawn o waith sydd wedi'i wneud i hyrwyddo'r iaith wedi dod drwodd mor gryf yn yr ymatebion i C3, cafwyd rhai ymatebion yn ymwneud â hi pan ofynnwyd iddynt sut beth

hoffent i'w cymuned edrych yn y dyfodol, er enghraifft. Eto, byddwn yn gosod y dystiolaeth o'r ymarfer hwn ochr yn ochr ag adborth o ymgynghoriadau eraill gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sir. Yn yr asesiad fe welwch ein bod wedi tynnu ar dystiolaeth a data eraill yn ymwneud â'r rôl a chwaraeir gan y Gymraeg yn ein cymunedau, a'r rôl y gallai ei chwarae yn y dyfodol.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch am y gwaith sydd wedi mynd i mewn i hyn. Mae'r Gymraeg yn cynyddu'n araf, gyda 16% bellach yn y Fenni (rhai ohonynt wedi symud i mewn o fannau eraill) a'r ysgol yn tyfu. Mae'n cymryd amser, a bydd y drydedd ysgol sy'n dod yn Nhrefynwy yn symud pethau ymhellach. Byddwn wedi disgwyl mwy am fand eang hefyd, o ystyried ei fod bellach yn ofyniad sylfaenol. Mae'n anodd casglu'r wybodaeth ar lefel sirol ond yn enwedig wedyn mewn rhanbarthau is, o ystyried amrywiaeth y sir. Mae ei faint yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem ddybryd. Mae'n dda gweld bod swyddogion yn codi gwybodaeth ar lefel fwy lleol ac yn ei fwydo i mewn i'r BGC rhanbarthol. Mae hyn wedyn yn anodd iawn, o ystyried y gwahaniaeth anghenion rhwng rhywun yn Nhrefynwy a Chasnewydd, er enghraifft.

Mae angen i ni fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb iechyd, sy'n bryder mawr, ac i gydnabod bod tlodi ac anghydraddoldeb yn bethau gwahanol – mae angen gwahaniaeth amlwg. Byddai'n dda sicrhau mentrau carbon niwtral ar raddfa ranbarthol, fel Grid Gwyrdd Gwent. Mae'n siŵr bod gan Sir Fynwy ôl troed carbon uwch oherwydd y ddibyniaeth ar geir, yn ogystal â cherbydau fferm. Mae cam-drin sylweddau yn broblem fawr, yn ogystal â phroblemau iechyd meddwl a cham-drin domestig, sy'n uchel iawn mewn rhai ardaloedd. Mae angen i ni feddwl pa mor dda yw gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed er mwyn delio â'r galw sydd wedi cynyddu ers dechrau Covid. Mae angen ystyried diwygio gofal cymdeithasol hefyd; mae'r ffocws wedi bod ar y Cyflog Byw Gwirioneddol ond mae'n ehangach na hynny. Mae'n anodd iawn mewn plant o ystyried y ddeuoliaeth amlwg rhwng y rhai ar incwm uchel ac isel, er enghraifft yn y Fenni.

7. **<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2,021</u>**

Cafodd y cofnodion eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir, gafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Roden a'u heilio gan y Cynghorydd Woodhouse.

8. **<u>Ystyried Blaenraglen Gwaith y Pwyllgor Dethol</u>**

9. **<u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

The meeting ended at **Time Not Specified**

monmouthshire
sir fynwy